cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

Cartrefi Cymunedol Cymru

# Materion Tai

## Cyllideb Cymru 2024/25



## Cymorth Cymru

**Cymorth Cymru** yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau

## Cartrefi Cymunedol Cymru

**Cartrefi Cymunedol Cymru** yw llais y cymdeithasau tai yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli 34 o gymdeithasau tai nid-er-elw sy'n darparu bron i 165,000 o dai a gwasanaethau'n gysylltiedig â thai i 10% o'r boblogaeth ledled Cymru. Ein gweledigaeth ar y cyd yw gwneud Cymru'n wlad lle mae tai safonol yn hawl sylfaenol i bawb. Mae cartref yn ganolog i fywydau pob un ohonom, a dyna pam rydym ni a'n haelodau'n credu y dylai helpu pobl i fyw bywydau iach, cyflawn a chysylltiedig fod wrth galon cynlluniau cenedlaethol Cymru. Rydym yn cynrychioli barn cymdeithasau tai ar lefel genedlaethol, i sicrhau eu bod yn gallu parhau i wneud eu gwaith hanfodol i gynnal tenantiaethau, cefnogi tenantiaid drwy heriau bywyd, a chreu cymunedau cynaliadwy.

# Cyflwyniad

**Mae gan bawb hawl i gael cartref diogel a sefydlog. Yn anffodus, mae mwy a mwy o bobl yng Nghymru'n cael profiad o ddigartrefedd, neu mewn perygl o fod yn ddigartref.**

Mae gwasanaethau cymorth tai yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o atal a lleddfu digartrefedd, gan helpu degau o filoedd o bobl bob blwyddyn i wella o drawma ac i fyw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf mae gwasanaethau wedi bod dan bwysau cyson, gyda chyfyngiadau ariannol, cynnydd aruthrol yn y galw, a chynnydd hefyd mewn cymhlethdodau'n gysylltiedig ag anghenion cymorth – a'r cyfan yn gwthio'r sector yn nes ac yn nes at y dibyn.

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn casglu tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cymorth digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru. Derbyniwyd data gan 32 o sefydliadau, yn cynnwys elusennau bach sy'n gweithredu mewn un neu ddau o awdurdodau lleol; elusennau mwy o faint sy'n gweithredu'n rhanbarthol neu'n genedlaethol, a chymdeithasau tai. Y sefydliadau hyn sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru, ac felly rydym yn hyderus bod ein data yn gynrychioliadol o'r sector.

Mae'r wybodaeth rydym wedi ei chasglu yn tystiolaethu i'r pwysau a'r heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau a sefydliadau yn dilyn y toriadau mewn termau real i'r Grant Cymorth Tai am 2023/24. Mae hefyd yn rhoi mewnwelediad sy'n peri pryder mawr ynghylch effaith debygol unrhyw doriadau pellach (mewn termau real neu ariannol) y flwyddyn nesaf.

**Wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau allweddol ynghylch ei chyllideb ar gyfer 2024/25, mae'r neges o'r sector digartrefedd a chymorth tai yn glir: mae ar y gwasanaethau angen enbyd am chwistrelliad o arian, neu fel arall mae'r system mewn perygl gwirioneddol o ddymchwel.**



# Pwysigrwydd y Grant Cymorth Tai

**Mae'r Grant Cymorth Tai (GCT) yn ariannu'r mwyafrif mawr o'r gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â digartrefedd a thai yng Nghymru, yn cynnwys cymorth tenantiaeth, llety â chymorth, llochesi rhag cam-drin domestig, Tai yn Gyntaf, a llawer mwy.**

Mae'r grant yn chwarae rhan allweddol i atal digartrefedd, gan helpu pobl sydd mewn perygl o gael eu troi allan i oresgyn heriau ac aros yn eu cartrefi. Mae hefyd yn darparu ystod o lety argyfwng, a llety â chymorth, ar gyfer y rhai sy'n ddigartref neu sy'n dianc rhag camdriniaeth a thrais.

## Mae gwasanaethau Cymorth Tai yn gwbl hanfodol i roi terfyn ar ddigartrefedd

Mae'r Papur Gwyn ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd – a gyhoeddwyd yn ddiweddar – yn gosod allan gyfres o ddiwygiadau deddfwriaethol fydd yn gwella atal digartrefedd yng Nghymru, a'r ymateb iddo. Fodd bynnag, roedd y Panel Adolygu Arbenigol a argymhellodd y diwygiadau hyn yn gwbl glir y bydd angen cynnydd yn y gwasanaethau cymorth tai os am roi'r diwygiadau ar waith. Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, adleisiwyd hyn gan randdeiliaid allweddol ledled Cymru.

## Lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill

Yn ogystal ag atal digartrefedd, mae'r Grant Cymorth Tai hefyd yn lleihau'r pwysau ar nifer fawr o wasanaethau cyhoeddus, o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gyfiawnder troseddol. Mewn ymchwil a wnaed gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, canfuwyd fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn arbed £1.40 net i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn gyfwerth â £300miliwn mewn arbedion gros bob blwyddyn.

- Lleihau'r galw ar wasanaethau Meddygon Teulu, ysbytai ac ambiwlansys
- Atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty
- Helpu pobl i gael gwell rheolaeth dros eu hiechyd meddwl
- Helpu pobl i oresgyn problemau gyda cham-drin sylweddau
- Atal pobl hŷn rhag bod ag angen am ofal preswyl
- Galluogi pobl a chanddynt anableddau dysgu i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau
- Lleihau risgiau diogelwch a phwysau ar wasanaethau i blant
- Lleihau ail-droseddu, gan wella diogelwch cymunedol
- Helpu teuluoedd i ddianc rhag cam-drin domestig trwy ddarparu llety a chymorth
- Cefnogi plant i lwyddo yn yr ysgol trwy ddarparu amgylcheddau diogel a sefydlog i deuluoedd


**Mae pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn rhoi arbediad net o £1.40 i wasanaethau cyhoeddus eraill**



# Ariannu dros y degawd diwethaf

Yn 2011/12, roedd y gyllideb Cefnogi Pobl yn £139miliwn. Yn ystod y degawd o lymder, dioddefodd gyfres o doriadau a thorrwyd y grant i £124miliwn yn 2015/16. Yn 2018 cafodd ei gyfuno â dau grant arall i ffurfio'r Grant Cymorth Tai, gyda chyllideb o £126miliwn. Yn ystod y pandemig cafodd ei godi i £167miliwn i adlewyrchu'r cynnydd mewn pwysau ar wasanaethau o ganlyniad i'r cynllun 'pawb i mewn'. Mae wedi parhau ar y lefel honno byth ers hynny.

Ond sut mae'r gyllideb gyfredol yn cymharu mewn **termau real** â'r gyllideb yn 2011/12? Ar ôl cymryd chwyddiant i ystyriaeth, mae £139m yn 2012 yn gyfwerth â tua £191m heddiw. Mae cyllideb y Grant Cymorth Tai cyfredol £24m yn llai na hyn – a gwyddom fod y pwysau ar wasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf.











## Cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod

Nid yw'r pwysau ar y system cymorth digartrefedd a chymorth tai erioed wedi bod yn fwy nag ydyw ar hyn o bryd. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru'n dangos bod 11,185 o bobl mewn llety dros dro ar 31 Awst 2023. Bydd ar lawer o'r bobl hyn angen cymorth i'w helpu i ymdopi mewn llety dros dro, ac yna symud i gartref sefydlog. Mae gwasanaethau cymorth tai hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth atal hyd yn oed rhagor o bobl rhag mynd i lety dros dro.

Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei chasglu gan ddarparwyr cymorth yn dangos bod y galw am wasanaethau cymorth digartrefedd a chymorth tai wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac felly hefyd y cymhlethdodau yn anghenion cymorth pobl.

- Dywedodd 81% fod y galw am eu gwasanaethau wedi cynyddu ers y llynedd
- Dywedodd 94% fod cymhlethdodau mewn anghenion cymorth wedi cynyddu ers y llynedd
- Dywedodd 66% eu bod yn gorfod gweithredu rhestrau aros ar gyfer eu gwasanaethau




"Roedd rhewi'r grant y llynedd yn drychineb. Rydym ar hyn o bryd yn gweithredu mewn amgylchedd lle mae Awdurdodau Lleol yn stryffaglu i ymdopi â gofynion digartrefedd. Ar yr un pryd, rydym wedi gweld cynnydd mewn problemau iechyd meddwl cymhleth ac mae ein Bwrdd Iechyd yn methu ymdopi â'r galw. Rwy'n gweld cynnydd mewn digwyddiadau / atgyfeiriadau yn ymwneud â diogelu, ac mae'r system gyfan ar fin dymchwel. Os na chaiff gwasanaethau eu hariannu'n briodol, bydd darparwyr yn dechrau cerdded i ffwrdd gan fod angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel ar gyfer y preswylwyr a'r staff."



# Costau uwch a chyllidebau llai

Mae'r data a gasglwyd oddi wrth ddarparwyr cymorth yn dangos bod cost cyflenwi gwasanaethau wedi codi o 11% ar gyfartaledd ers y llynedd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn rhent, cyfleustodau a chyflogau.

## Sybsideiddio gwasanaethau o ganlyniad i ddiffyg arian

Tra bod 27% wedi gorfod torri i lawr ar y gwasanaethau maent yn eu cyflenwi, mae llawer o ddarparwyr cymorth yn gwneud eu gorau glas i gadw'r gwasanaethau llawn i fynd, er gwaethaf y diffyg arian maent yn ei wynebu. Dywedodd nifer brawychus, sef 75%, o'r darparwyr cymorth bod eu gwasanaethau GCT yn rhedeg ar golled.

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfran o ddarparwyr cymorth sydd ar hyn o bryd yn sybsideiddio eu gwasanaethau cymorth tai o ffynonellau eraill, yn cynnwys 52% sy'n gwneud hynny o'u cronfeydd eu hunain.

| Ydych chi wedi gorfod sybsideiddio eich gwasanaethau GCT o unrhyw un o'r ffynonellau canlynol? | |
|---|---|
| Refeniw o gynlluniau codi arian | 28% |
| Cronfeydd wrth gefn | 52% |
| Traws-gymhorthdal o gytundebau GCT eraill | 17% |
| Traws-gymhorthdal o rannau eraill o'r sefydliad | 52% |
| Costau a arbedwyd o'r llynedd | 38% |

Mae darparwyr cymorth yn datgan yn glir nad yw hyn yn gynaladwy. Ni all y rhan fwyaf o'r sefydliadau fforddio sybsideiddio gwasanaethau yn y dyfodol, a bydd raid iddynt ddychwelyd cytundebau os nad yw'r diffyg yn y cyllid yn cael ei ddatrys.

*"Rydyn ni wedi ymrwymo i ariannu'r diffyg o'n cronfeydd ein hunain, ond ni fydd hyn yn gynaladwy ar ôl 2025."*

**Mae 11% o gynnydd yn y gost o gyflenwi gwasanaethau**

**Mae 75% o'r darparwyr yn rhedeg gwasanaethau ar golled**

**Mae 52% yn defnyddio'u cronfeydd wrth gefn i gynnal gwasanaethau**

*"Fel rhan o'r cyllidebau ar gyfer eleni, rydym wedi defnyddio'n cronfeydd i gadw'r ddysgl yn wastad, ac felly does dim gostyngiad yn y gwasanaethau a gyflenwir / diswyddiadau; fodd bynnag, nid yw'r capasiti ariannol gennym i barhau i sybsideiddio cytundebau GCT."*



## Yr effaith ar gyflenwi gwasanaethau

Holwyd darparwyr cymorth ynghylch effaith cyllideb arian-gwastad y Grant Cymorth Tai ar gyfer 2023/24, a gofynnwyd a oedd hynny wedi effeithio ar gyflenwi gwasanaethau, cytundebau a staffio ai peidio. Mae'r tabl isod yn dangos y camau mae cyflenwyr cymorth wedi gorfod eu cymryd ers i gyllideb GCT eleni gael ei chadarnhau.

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| Lleihau capasiti'r gwasanaeth | 27% | 70% |
| Dychwelyd cytundeb(au) sy'n bodoli eisoes | 3% | 97% |
| Peidio â bidio am gytundeb(au) newydd/ rhai sy'n cael eu hail-dendro | 45% | 48% |
| Gwneud staff yn ddi-waith | 10% | 90% |
| Rhewi'r broses recriwtio / gadael swyddi gwag heb eu llenwi | 27% | 70% |

Mae'n achos pryder mawr fod 45% o'r sefydliadau wedi dewis peidio â bidio am gytundebau newydd neu rai sy'n cael eu hail-dendro. Yn achos y 27% oedd wedi cael eu gorfodi i leihau capasiti'r gwasanaeth, roedd eu horiau rhoi cymorth wedi eu torri o 8% ar gyfartaledd, er gwaethaf y cynnydd yn y galw a'r cymhlethdodau.

**Mae 27% wedi lleihau capasiti'r gwasanaeth**

**Mae 45% wedi dewis peidio â bidio am gytundebau newydd neu rai sy'n cael eu hail-dendro**

"Rydym ar fin cael toriad yn ein cytundeb cymorth tai, ac yn ystyried ail-dendro ar gyfer cytundeb newydd; bydd raid i ni roi ystyriaeth ddwys i gostau, a byddwn yn annhebygol o gyflawni'r hyn rydym wedi ei wneud yn y cynnig cytundeb newydd, a hynny oherwydd chwyddiant, costau byw, prisiau ynni, cadw staff, ac anghenion hyfforddi."

"Rydym eisoes wedi dileu'r rhan fwyaf o'r costau nad ydynt yn hanfodol o'r gyllideb mewn blynyddoedd a fu, felly erbyn hyn mae'n fater o naill ai leihau'r nifer o unedau / oriau a ddarperir, neu wneud pobl yn ddi-waith."

## Toriadau i elfennau o'r gwasanaethau 'nad ydynt yn hanfodol'

Dywedodd 50% o'r darparwyr fod y toriadau mewn termau real i'r GCT wedi arwain at doriadau yn elfennau 'nad ydynt yn hanfodol' cyflenwi gwasanaeth – elfennau a gâi eu cydnabod fel elfennau ataliol, arfer da, neu'n fuddiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau therapiwtig ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Cymorth un-i-un i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Gweithgareddau a chyfleoedd i ymgysylltu ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Rhoi cymorth i helpu pobl i symud i dai annibynnol
- Gwaith penodol gyda grwpiau sydd ar y cyrion
- Gwreiddio amgylcheddau seicolegol-wybodus
- Arolygiaeth glinigol ar gyfer y staff
- Hyfforddiant, datblygiad a chymwysterau i'r staff



## Cyflogau, recriwtio a chadw staff

Ym mis Ionawr 2023, cynhaliodd Cymorth arolygon gyda darparwyr gwasanaethau a staff rheng flaen ym maes cymorth digartrefedd a chymorth tai. Dangosai'r data fod 29% o'r staff oedd yn gweithio mewn gwasanaethau a gâi eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai yn derbyn cyflogau oedd yn is na'r cyflog cenedlaethol sydd ar y gweill, ac a fyddai'n weithredol o fis Ebrill 2023. Mae'r diffyg cyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn 2023/24 yn golygu bod y rhan fwyaf o'r darparwyr gwasanaethau wedi gorfod cynyddu cyflogau'r staff heb dderbyn unrhyw gyllid ychwanegol.

Yn ein harolwg o ddarparwyr ym mis Medi 2023, dywedodd 91% nad oedd eu cyllid GCT wedi ei godi'n ddigonol i'w galluogi i dalu'r cynnydd angenrheidiol yng nghyflogau'r staff. Mae rhai darparwyr wedi dyfynnu costau ychwanegol o £600,000 i dalu am godiadau cyflog eleni.

> *"Mae yna hefyd risg barhaus a chynyddol i'n gallu i ddenu'r bobl iawn i mewn i'r gweithlu, gan fod cyflogau'n fwy a mwy aml yn cael eu gadael ar ôl. Rydym wedi ymrwymo i'r Cyflog Byw Go Iawn, ond mae hyd yn oed cwrdd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn mynd yn fwyfwy anodd."*

Roedd data a gasglwyd ym mis Ionawr 2023 gan weithwyr rheng flaen ym maes cymorth digartrefedd a chymorth tai yn dangos y canlynol:

- Roedd 86% yn dewis peidio â gwresogi'r tŷ er mwyn arbed arian
- Roedd 56% yn cael trafferth i dalu biliau
- Roedd 18% yn cael trafferth i dalu rhent
- Roedd 12% yn teimlo eu bod mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref
- Roedd 9% yn defnyddio banciau bwyd

Roedd llawer o'r gweithwyr rheng flaen yn colli prydau bwyd ac yn cymryd swyddi ychwanegol ar ben eu gwaith cymorth amser-llawn, a hynny oherwydd y cyflog isel. Roedd rhai'n ystyried gadael gyrfa oedd wrth eu bodd oherwydd na allant bellach gael dau pen llinyn ynghyd; soniodd nifer o bobl am swyddi oedd yn talu'n well ym meysydd manwerthu a gwasanaethau dosbarthu, oedd yn dod â llawer iawn llai o bwysau yn eu sgil.

**Roedd 56% yn cael trafferth i dalu biliau**

**Roedd 18% yn cael trafferth i dalu rhent**

### Yr effaith ar recriwtio a chadw staff

IYn ein harolwg diweddar o ddarparwyr cymorth, dywedodd 72% fod diffyg codiad cyflog oherwydd chwyddiant eleni wedi cael effaith negyddol neu negyddol iawn ar eu gallu i recriwtio a chadw staff.

> *"Mae'r diffyg cynnydd mewn cefnogaeth ariannol i wasanaethau'r GCT dros y 5 mlynedd ddiwethaf wedi gwneud recriwtio a cadw staff yn hynod anodd yn y maes hwn. Mae'r sgil-effeithiau yn nhermau boddhad a morál staff hefyd yn gwbl amlwg."*

> *"Mae recriwtio wedi bod yn her sylweddol, ac rydym yn gweld cynnydd mewn trosiant staff o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, lle mae cydweithwyr yn methu fforddio parhau i weithio yn y sector. Mae timau sy'n newid yn gyson yn effeithio'n drwm iawn ar ansawdd y gwasanaethau a'r pwysau ar reolwyr."*



## Edrych tua'r dyfodol: cyllideb y GCT 2024/25

Gofynnwyd i ddarparwyr cymorth ystyried effaith dwy senario ar gyfer 2024/25: setliad arian-gwastad (toriad mewn termau real) a gostyngiad yn yr ariannu. Mae'r data o'r ddwy senario yn peintio darlun hynod bryderus, gyda chyfran fawr o'r darparwyr gwasanaeth yn debygol o ddychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes, ac yn dewis peidio â bidio am gytundebau newydd neu rai gaiff eu hail-dendro.

**Mae yna risg gwirioneddol y bydd y system yn dymchwel yn llwyr os na cheir cynnydd yn y GCT, ac mae darparwyr gwasanaethau'n teimlo na allant ymgymryd â chytundebau nad ydynt yn darparu digon o gyllid i'w galluogi i gyflenwi gwasanaethau diogel, o ansawdd da.**


### Effaith debygol setliad arian-gwastad:

- Byddai 77% yn hynod debygol neu'n debygol o orfod lleihau capasiti'r gwasanaeth
- Byddai 40% yn hynod debygol neu'n debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes
- Byddai 67% yn hynod debygol neu'n debygol o beidio â bidio am gytundebau newydd neu rai a ail-dendrwyd
- Byddai 48% yn hynod debygol neu'n debygol o wneud staff yn ddi-waith
- Byddai 71% yn hynod debygol neu'n debygol o rewi'r broses recriwtio

**Byddai 77% yn hynod debygol neu'n debygol o leihau capasiti**

**Byddai 40% yn hynod debygol neu'n debygol o ddychwelyd cytundebau**

**Byddai 67% yn hynod debygol neu'n debygol o beidio â bidio am gytundebau**






## Effaith debygol cael toriad mewn termau ariannol:


- Byddai 78% yn hynod debygol neu'n debygol o orfod lleihau capasiti'r gwasanaeth
- Byddai 53% yn hynod debygol neu'n debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes
- Byddai 67% yn hynod debygol neu'n debygol o fidio ar gyfer contractau newydd neu rai a ail-dendrwyd
- Byddai 56% yn hynod debygol neu'n debygol o wneud staff yn ddi-waith
- Byddai 74% yn hynod debygol neu'n debygol o rewi'r broses recriwtio / gadael swyddi gwag heb eu llenwi


**Ar gyfer pob dangosydd, roedd canran yr ymatebwyr a ddewisodd 'hynod debygol' yn codi'n sylweddol mewn cymhariaeth â'r senario cyllideb arian-gwastad.**


**Byddai 78% yn hynod debygol neu'n debygol o leihau capasiti**


**Byddai 53% yn hynod debygol neu'n debygol o ddychwelyd cytundebau**

**Byddai 67% yn hynod debygol neu'n debygol o beidio â bidio am gytundebau**





cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

Cartrefi Cymunedol Cymru